BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

# CYNLLUN BUSNES 2023–24



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| RHAGAIR | 03 |
| Y TAIR BLAENORIAETH | 06 |
| TROSOLWG O'R CYNLLUN | 07 |
| GWELLA PIBLINELL POBL Y DIWYDIANT ADEILADU | 08 |
| CREU LLWYBRAU HYFFORDDIANT WEDI EU DIFFINIO | 13 |
| CYFLAWNI CYFLENWAD EFFEITHLON O HYFFORDDIANT | 17 |
| SERO NET | 20 |
| SUT BYDDWN NI'N GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID | 21 |
| CAEL MYNEDIAD AT GYMORTH CITB | 23 |
| CYLLID | 25 |
| SUT BYDDWN NI'N MESUR EIN LLWYDDIANT | 29 |







# RHAGAIR:

# RHOI CYFLOGWYR O FLAEN Y GAD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Busnes 2023-24 CITB, sy'n cynnwys gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer sgiliau a hyfforddiant adeiladu.

Mae'r cynllun hwn wedi ei deilwra i anghenion y diwydiant, ac mae'n adeiladu ar y sylfeini sgiliau rydyn ni wedi eu rhoi ar waith dros y 12 mis diwethaf. Mae'n dangos sut bydd CITB yn buddsoddi £253 miliwn, sy'n £19.8 miliwn o gynnydd o'i gymharu â'r llynedd, ac mae'n egluro sut byddwn yn grymuso cyflogwyr drwy sicrhau bod y system sgiliau'n gweithio'n fwy effeithlon drostynt. Bydd CITB yn parhau i roi mwy o gyflogwyr o flaen y gad, gan roi mwy o lais iddynt ar hyfforddiant adeiladu er mwyn iddynt gael y gweithlu medrus a chynhwysol sydd ei angen arnynt.

Mae ein cynllun yn dangos sut rydym yn symud ymlaen gyda'n tair blaenoriaeth hirdymor, sef ymateb i'r galw am sgiliau, datblygu capasiti a gallu'r system hyfforddiant adeiladu a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwrpas CITB, sef sut byddwn ni'n "cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol" drwy:

- WELLA **PIBLINELL POBL** Y DIWYDIANT ADEILADU
- CREU **LLWYBRAU HYFFORDDIANT** DIFFINIEDIG
- CYFLAWNI **DARPARIAETH HYFFORDDIANT** EFFEITHLON

## MAE EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD YN GLIR; DYMA SUT BYDDWN NI'N EU CYFLAWNI.

### CYFLE

Mae adeiladu yn ddiwydiant sy'n llawn cyfleoedd; mae ganddo swyddi medrus iawn sy'n talu'n dda i bobl o bob oed a chefndir. Mae'r diwydiant yn falch iawn o weld doniau newydd, a dyna pam mae newydd-ddyfodiaid sydd ag agwedd wych yn cael eu croesawu â breichiau agored. Mae adeiladu yn rhoi cyfle mewn bywyd i bobl.

Mae ein rhagolwg sgiliau newydd yn adlewyrchu cyfleoedd amrywiol y diwydiant adeiladu. Mae'n dangos y bydd angen ychydig o dan 45,000 o weithwyr ychwanegol bob blwyddyn i ddiwallu'r galw rhwng nawr a 2027. Dyna pam mae angen **Piblinell Pobl** gryf ar gyfer y diwydiant adeiladu, er mwyn sicrhau bod cwmnïau yn cael recriwtiaid newydd iddynt allu gwneud eu gwaith.

Er mwyn denu pobl newydd, rhaid i'r syniad cul, hen ffasiwn o adeiladu, sef ei fod yn waith mwdlyd, â llaw i wrywod, newid. Mae ein gwaith i ddod ag adeiladu'n fyw mewn ysgolion ac ymgyrchoedd ar-lein, drwy wefan boblogaidd Am Adeiladu, wedi ei anelu at greu piblinell fwy amrywiol. Bydd y gwaith hwn yn cyflymu yn y flwyddyn i ddod.

Mae angen diffinio **Llwybrau Hyfforddiant** a bod yn hyblyg. Un o'r agweddau mwyaf cyffrous ar adeiladu yw sut gall siapio'r gymuned, yr economi a heriau modern enfawr fel sero net, technoleg ddigidol a deddfwriaeth diogelwch adeiladau.

Bydd CITB yn sefydlu llwybrau i gefnogi mwy o ddysgwyr Addysg Bellach. Bydd hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant cywir ar gael i ategu gofynion y Ddeddf Diogelwch Adeiladau, i hybu safonau ansawdd ar draws y diwydiant. Cyflwynwyd y Ddeddf ym mis Ebrill 2022, ac mae'n rhoi mwy o hawliau a gwarchodaeth i breswylwyr a pherchnogion tai i wneud cartrefi'r Deyrnas Unedig yn fwy diogel. Gan fynd y tu hwnt i'r rheoliadau presennol, mae'n egluro sut dylid adeiladu a gwneud adeiladau preswyl yn ddiogel.

Mae **Cyflenwad Hyfforddiant** effeithlon yn hanfodol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael mewn meysydd sgiliau blaenoriaeth fel gosod brics, gwaith plastro a goruchwylio safleoedd. Hyfforddiant sy'n cynhyrchu prentisiaid gyda sgiliau modern i adeiladu'r ysgolion, y ffyrdd a'r seilwaith sydd eu hangen ar y wlad.

## MENTRAU

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r mentrau rydyn ni'n eu cyflwyno ac yn parhau â nhw yn 2023-24. Mae'r rhain yn cynnwys cael gwared â'r drafferth o gyflogi prentisiaid; cronfa effaith i gynorthwyo cyflogwyr i fynd i'r afael â heriau fel cynhyrchiant ac amrywiaeth; a dyblu'r grant ar gyfer cyrsiau byr.

Fel cyn-brentis, rwy'n llawn cyffro am botensial ein Tîm Cefnogi Newydd-ddyfodiaid (NEST) yn Lloegr. Mae llawer o gyflogwyr, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) yn teimlo bod y broses o gyflogi prentis yn gymhleth. Mae'r tîm newydd hwn yn mynd â'r drafferth o gyflogi. Maent wedi dechrau darparu'r cymorth cynhwysfawr sydd ei angen ar fusnesau bach a chanolig: dod o hyd i ymgeisydd, cael gafael ar gyllid, dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas a chael grantiau.



Yn y cyfamser bydd ein Cronfa Effaith ar Ddiwydiant (IIF), sy'n cael ei lansio ochr yn ochr â'r Cynllun Busnes hwn, o fudd i gyflogwyr sy'n cael mynediad at sgiliau a hyfforddiant yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd yr IIF yn gweld cyflogwyr yn dylunio atebion i gefnogi cynhyrchiant a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Fel y bydd darllenwyr fy mlogiau'n gwybod, rwy'n frwd dros gynaliadwyedd. Credaf fod pob swydd yn swydd werdd a dylai pob dysgwr ennill sgiliau "gwyrdd" ymarferol erbyn diwedd eu hyfforddiant. Mae CITB yn datblygu safonau a chymwysterau newydd, yn targedu cyllid tuag at feysydd sgiliau blaenoriaeth sero net ac yn cynnal ymchwil i ganfod anghenion sgiliau yn y dyfodol. Mae sero net yn enghraifft o sut rydyn ni'n cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir cyflogwyr.

## SYLFEINI

Bydd y Cynllun Busnes hwn, wrth gwrs, yn adeiladu ar y nodau a nodwyd gennym yn 2022-23. Bydd diwydiant yn gweld momentwm ac effaith ar fuddsoddiadau'r llynedd, gan gynnwys yn ein Colegau Adeiladu Cenedlaethol (NCC) a byddwn yn cefnogi mwy o gyflogwyr trwy amrywiaeth o fentrau newydd a phresennol.

Er enghraifft, ym mis Awst 2022, fe wnaethom gyhoeddi buddsoddiad o £800,000 mewn prosiect peilot rhwydwaith cyflogwyr newydd - menter radical i wella'r ffordd mae'r diwydiant yn cael cyllid ar gyfer hyfforddiant. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod wrth i ni gynyddu ein darpariaeth.

Cafwyd buddsoddiad mawr arall ym mis Rhagfyr 2022 pan ddyfarnwyd contractau, a oedd yn werth £10.5 miliwn, i bedwar sefydliad hyfforddi, gan eu galluogi i ddarparu dros 10,000 o gyrsiau Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth am ddim i'r diwydiant. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn sgiliau allweddol ar gyfer pob safle adeiladu - maes lle mae diwydiant wedi nodi bod angen mwy o gymorth a hyfforddiant.

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gynorthwyo â gofynion penodol y wlad unigol o fewn comisiwn yr Hwb.

Yng Nghymru, darparwyd £780,000 yn ychwanegol i Hybiau presennol i gynorthwyo mwy o gyflogwyr ac unigolion.

Yn yr Alban, fe wnaethom ychwanegu adnoddau ychwanegol at y model Hwb i sicrhau bod yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd yn gallu mabwysiadu'r model.

Ac yn Lloegr, fe wnaethom lansio comisiwn newydd gyda mwy o ffocws ar gymorth i unigolion a chyflogwyr er mwyn galluogi cyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy. Mae'r Cynllun hwn yn ategu ein Cynlluniau Cenedl, sydd wedi eu teilwra i ddymuniadau cyflogwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Rwyf hefyd eisiau sicrhau bod mynediad at holl gynnyrch a gwasanaethau CITB, gan gynnwys grantiau a chyllid, yn syml i gyflogwyr o bob maint. I gyflawni hyn, byddwn yn parhau â'n Rhaglen i Gwsmeriaid. Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i wneud ein systemau'n fwy parod i ganolbwyntio ar y cwsmer ac yn haws eu defnyddio. Byddwn yn dechrau rhoi newidiadau sylweddol ar waith a fydd yn awtomeiddio prosesau ymhellach er mwyn iddynt allu parhau i hyfforddi a gwella sgiliau eu gweithwyr.

## ANOGAETH

Mae adeiladu yn ddiwydiant cydnerth. Er bod heriau anochel ar ôl deuddeg mis o gynnydd mewn chwyddiant, cyfraddau llog ac argyfwng costau byw, rwy'n cael fy nghalonogi'n fawr gan ragolygon o gynnydd disgwyliedig yn 2024 ynghyd â'r cyfleoedd i fuddsoddi mewn hyfforddiant, gyda chefnogaeth CITB.

Rwyf hefyd yn ymfalchïo yn ein prosiectau partneriaeth, gwaith caled fy nghydweithwyr a brwdfrydedd y myfyrwyr rwyf wedi cwrdd â nhw ar fy nheithiau ledled Prydain. Bydd cydweithio'n parhau i fod yn hollbwysig yn 2023-24 a dyna pam mae amcanion y Cynllun hwn yn cyd-fynd â nodau'r Cyngor Arwain Adeiladu, yn ei Gynllun Sgiliau Diwydiant, a'n Cynlluniau Strategol a Chenedlaethol.

Rydym yn ymgynghori â'r diwydiant ar ein Cynllun Strategol newydd, ar gyfer 2024-28, gweledigaeth i wasanaethu'r diwydiant. Edrychaf ymlaen at glywed eich barn a gweithio'n gynhyrchiol gyda chi yn y flwyddyn i ddod. Dymunaf y gorau i ddiwydiant adeiladu'r Deyrnas Unedig yn 2023-24.



**Tim Balcon**
Chief Executive
April 2023

**"Mae Adeiladu yn ddiwydiant cyffrous a chadarn, gydag amrywiaeth o swyddi medrus sy'n talu'n dda i bawb, beth bynnag fo'u hoed neu eu cefndir.**

**Rwy'n croesawu'r ymrwymiad yng Nghynllun Busnes CITB i roi mwy o lais i gyflogwyr a mynediad haws at gyfleoedd cyllido, y pwyslais a roddir ar wella cyfradd trosi pobl ifanc sy'n gadael Addysg Bellach i gyflogaeth yn y diwydiant a chefnogaeth barhaus Rhwydweithiau Cyflogwyr, a gwn o'm cyfraniad fy hun eu bod yn llwyddiant mawr.**

**Mae'r sector yn dal i wynebu llawer o heriau o ran sgiliau, ond mae'r datblygiadau hyn yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn."**

**Herman Kok**
Ysgrifennydd Cwmni, Lindum Group Limited.





# Y TAIR BLAENORIAETH

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2023-24 yn adlewyrchu diben CITB, sef: Cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn flaenorol wrth i ni ddechrau ar flwyddyn olaf ein Cynllun Strategol. Bydd ein tair blaenoriaeth allweddol yn effeithio ar bob rhan o'r biblinell dalent, o ysbrydoli pobl i ddewis adeiladu fel eu gyrfa, i gadw talent.

## 1 PIBLINELL POBL

Mae gan y farchnad lafur dros filiwn o swyddi gwag ac mae tua 250,000 o bobl wrthi'n chwilio am waith. Mae angen i'r diwydiant adeiladu gael llif cryfach o dalent a mynediad mwy uniongyrchol at swyddi medrus. Fodd bynnag, mae rhwystrau rhag denu talent newydd. Mae ymchwil yn dangos nad oes gan ddarpar recriwtiaid newydd ganfyddiadau cadarnhaol o'r diwydiant. O ganlyniad, dim ond 30% sy'n teimlo bod adeiladu yn yrfa 'iddyn nhw.'

## 2 LLWYBRAU HYFFORDDIANT

Mae gan recriwtiaid adeiladu newydd y potensial i newid y byd er gwell drwy ddatblygu sgiliau i ddatrys heriau'r 21ain ganrif. Gall eu hyfforddiant fod o fudd i'r gymuned, i'r economi leol, i helpu i gyflawni uchelgeisiau sero net ac ysbrydoli eraill i ddilyn gyrfa adeiladu werth chweil. Mae CITB, a'r diwydiant, yn gweithio i sicrhau bod doniau'r diwydiant adeiladu wedi eu hyfforddi ac yn fedrus ar gyfer y dyfodol.

System sgiliau lle mae llwybrau hyfforddi'n cael eu diffinio ac yn hyblyg, gyda chyflawniadau'n cael eu dilysu drwy'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu, yw un o'n prif amcanion. Yn 2023-24, bydd CITB yn llunio llwybrau cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer 20% o ofynion sgiliau ychwanegol y diwydiant, gan ganolbwyntio ar alwedigaethau blaenoriaeth fel Gosod Brics a Gwaith Saer ac Asiedydd.

## 3 CYFLENWAD HYFFORDDIANT

Mae cyflenwad hyfforddiant effeithiol yn hanfodol i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant. Mae cyflogwyr wedi dweud wrthym eu bod yn awyddus i uwchsgilio eu gweithlu i lenwi bylchau a dangos i'w gweithwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn fodlon talu am hyfforddiant i wella eu gyrfaoedd. Yn ogystal, mae angen darparu hyfforddiant sgiliau galwedigaethol craidd gorfodol yn effeithlon. I wneud i hyn weithio, bydd CITB yn darparu cymhellion ariannol i helpu busnesau i wneud mwy o hyfforddiant a gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd da ar gael yn y mannau ac ar yr adegau y mae ei angen.



# TROSOLWG O'R CYNLLUN

## 1 GWELLA'R BIBLINELL POBL AR GYFER ADEILADU

### EIN GWEITHGAREDDAU:

**Byddwn yn codi proffil gyrfaoedd yn y maes adeiladu drwy:**

- Am Adeiladu
- Adeiladu Sgiliau
- Rhaglen Cenhadon STEM Am Adeiladu.

**Byddwn yn cefnogi tri llwybr allweddol i'r diwydiant:**

- Profiad gwaith a Sesiynau Blasu
- Prentisiaethau a'r Tîm Cymorth i Gyflogwyr Newydd-ddyfodiaid
- Hybiau Profiad ar y Safle.

**Byddwn yn helpu i gadw gweithwyr adeiladu presennol drwy sefydlu a chefnogi:**

- Cynlluniau Tegwch, Cynhwysiant a Pharch
- Mentrau iechyd meddwl.

### EIN NODAU:

- 4% o gynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth gyrfaoedd gan CITB
- 4% o gynnydd yn nifer y cyfleoedd Blasu sydd ar gael
- 4% o gynnydd yn nifer y prentisiaethau CITB sy'n dechrau
- 7% o gynnydd yn nifer yr unigolion a gefnogir i gyflogaeth o Addysg Bellach
- 15% o gynnydd yn nifer y bobl mewn cyflogaeth barhaus am 3 mis drwy Hybiau ar y Safle.

## 2 CREU LLWYBRAU HYFFORDDIANT DIFFINIEDIG

### EIN GWEITHGAREDDAU:

**Byddwn yn:**

- Parhau â'n cylch parhaus o ddiweddaru safonau, i sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion sgiliau'r diwydiant yn awr ac yn y dyfodol
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i ddylanwadu ar brentisiaethau, ar ran y diwydiant
- Cynhyrchu naw llwybr cymwysterau a hyfforddiant, gan ddechrau gyda galwedigaethau sy'n cynnwys nifer fawr o weithlu'r diwydiant
- Parhau i weithio gyda CLC a hwyluso grwpiau sector i gytuno ar fframweithiau cymhwysedd ar gyfer: Galwedigaethau Cladin (Rainscreen), Galwedigaethau Toi, Systemau Mewnol (Leinin sych) a Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiedig (Passive Fire).

### EIN NODAU:

- 20% o'r galw am sgiliau yn y diwydiant wedi ei gwmpasu drwy lwybrau cymhwysedd a hyfforddiant y cytunwyd arnynt.

## 3 CYFLENWI HYFFORDDIANT YN EFFEITHLON

### EIN GWEITHGAREDDAU:

**Byddwn yn:**

- Ehangu ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cydnabyddedig
- Parhau i ddarparu hyfforddiant sgiliau craidd hanfodol
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi drwy'r Colegau Adeiladu Cenedlaethol 7%
- Rhaglenni cymorth sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â phrinder hyfforddwyr ac aseswyr
- Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheolaeth a chynnig amrywiaeth o ddewisiadau hyfforddi.

### EIN NODAU:

- 5% o gynnydd mewn cymorth hyfforddiant CITB a gafodd ei ddefnyddio gan gyflogwyr
- 4% o gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi.

1

# GWELLA'R BIBLINELL POBL AR GYFER ADEILADU

Bydd £8.2 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn mentrau newydd ar gyfer 2023-24 i ategu ein gweithgarwch ar gyfer y Biblinell Pobl.

Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar gynnyrch presennol fel Am Adeiladu a Hybiau Profiad ar y Safle a'u gwella, yn ogystal â chyflwyno ymyriadau newydd fel y Tîm Cymorth i Gyflogwyr Newydd-ddyfodiaid. Bydd y gwaith hwn yn ategu ein huchelgais i gynyddu nifer y bobl rydym yn eu denu i'r diwydiant adeiladu.



## AM ADEILADU

Mae gwefan Am Adeiladu yn cynnig ysbrydoliaeth i bobl sy'n newydd i'r diwydiant adeiladu. Yn 2023-24, bydd CITB yn hyrwyddo'r wefan fel llais awdurdodol ar yrfaoedd ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Yn fwy cyffredinol, bydd y brand yn helpu i drawsnewid canfyddiadau negyddol o'r diwydiant adeiladu. Bydd cynnwys yn cael ei adnewyddu i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd gwaith sgiliau uchel sy'n talu'n dda. Bydd yr iaith yn gynhwysol, bydd astudiaethau achos yn dangos amrywiaeth y diwydiant, a bydd A-Y o swyddi ar y wefan (sef 183 o swyddi gwahanol ar hyn o bryd) yn dangos sut gall pawb elwa ar yrfa yn y diwydiant adeiladu. Gyda dros filiwn o ymweliadau ag Am Adeiladu bob blwyddyn, ein nod yw parhau i gynyddu hyn 5%.

## ADEILADU SGILIAU

Mae Adeiladu Sgiliau, 'Gemau Olympaidd y diwydiant adeiladu' yn y Deyrnas Unedig, yn rhoi cyfle i brentisiaid a hyfforddeion gystadlu yn erbyn ei gilydd am deitlau cenedlaethol nodedig.

Mae'r gystadleuaeth yn un o'r ffyrdd niferus mae CITB yn darparu cymorth i ddenu amrywiaeth eang o recriwtiaid i'r diwydiant. Mae'n helpu pobl ifanc i dyfu'n bersonol, gan gynyddu eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol, yn ogystal â'u helpu'n broffesiynol drwy ddatblygu eu sgiliau technegol a'u sgiliau cyflogadwyedd.

Mae'r digwyddiad nid yn unig yn cydnabod unigolion sy'n perfformio'n dda, ond mae hefyd yn dathlu'r safonau a'r sgiliau uchel ym maes adeiladu, ac mae'n gyfrwng i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes adeiladu i gynulleidfa ehangach. Eleni, rydym yn anelu at gynyddu nifer ein cystadleuwyr 5%, gan gyrraedd cynulleidfa ehangach fyth a chynnwys mwy o brentisiaid a hyfforddeion yn y gystadleuaeth.

## RHAGLEN LLYSGENHADON STEM AM ADEILADU

Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen Llysgenhadon STEM. Mae llysgenhadon yn mynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd (rhithwir neu wyneb yn wyneb) ar ran eu cyflogwr i rannu eu profiadau o weithio ym maes adeiladu gyda phobl ifanc.

Ar hyn o bryd, mae gennym dros 700 o lysgenhadon. Eleni, rydym yn bwriadu cynyddu hyn i dros 1,000. Ar ben hynny, byddwn yn anelu at ymgysylltu â 600 o lysgenhadon drwy gydol y flwyddyn, gan ddod â'r gwaith adeiladu yn fyw mewn ysgolion.

## PROFIAD GWAITH A SESIYNAU BLASU

Gall profiad cadarnhaol o weithio ym maes adeiladu wneud gwahaniaeth enfawr i ennill calonnau a meddyliau'r rhai sy'n ystyried gyrfa mewn adeiladu.

Rydym eisiau rhoi cyfle i fwy o bobl gael gwybod drostynt eu hunain sut beth yw gweithio yn y diwydiant adeiladu, a thrwy hynny gynyddu'r gronfa o recriwtiaid newydd posibl yn y diwydiant. Bydd CITB yn cynorthwyo'r diwydiant i ddarparu cyfleoedd hygyrch er mwyn i ddarpar newydd-ddyfodiaid gael blas ar adeiladu drwy Sesiynau Blasu neu brofiad gwaith.

## PRENTISIAETHAU

Mae prentisiaethau wrth galon y gwaith o fynd i'r afael â'r galw am sgiliau ym maes adeiladu. Yn 2023-24, bydd CITB yn buddsoddi tua £63 n mewn prentisiaethau drwy ein grantiau Presenoldeb a Chyflawni.

Mae cymorth ychwanegol ar gael hefyd i gyflogwyr sydd â phrentisiaid sy'n gorfod 'Teithio i Hyfforddi', gan ad-dalu 80% o gostau llety i'r rhai sy'n mynychu colegau neu ddarparwyr hyfforddiant lle mae angen aros dros nos.

Gall cyflogwyr hefyd wneud cais am gostau teithio prentisiaid os yw'r gost yn fwy na £20 yr wythnos.





## TÎM CYMORTH I GYFLOGWYR NEWYDD-DDYFODIAID

Gall y broses o gyflogi prentis fod yn gymhleth a chymryd llawer o amser i fusnesau bach. Cenhadaeth ein Tîm Cymorth i Gyflogwyr Newydd-ddyfodiaid, a dreialwyd y llynedd ac a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023, yw gwneud y broses yn haws. Bydd gwaith y tîm yn 2023-24 yn golygu eu bod yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar gwmnïau yn Lloegr: dod o hyd i ymgeisydd, cyllido eu hyfforddiant, dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas a chael gafael ar grantiau.

Bydd cynghorydd lleol penodol yn cael ei neilltuo i gyflogwyr. Ar ôl i'r cyflogwr lwyddo i recriwtio prentis, bydd y tîm o gynghorwyr yn darparu cymorth mentora parhaus i sicrhau bod y dysgwr yn aros ar y rhaglen.

Bydd y gwaith hwn, sy'n fawr ei angen, yn codi cyfraddau llwyddiant prentisiaethau. Mae hynny'n bwysig, gan fod nifer y bobl a ddechreuodd brentisiaeth wedi gostwng yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cyd-daro â gostyngiad yng nghyfran y prentisiaethau adeiladu a gwblhawyd (ar hyn o bryd 60% o brentisiaethau yn Lloegr sy'n cael eu cwblhau). Bydd y Tîm Cymorth i Gyflogwyr Newydd yn ei gwneud hi'n haws i gyflogi prentisiaid, gan roi'r cymorth sydd ei angen ar gyflogwyr. Gallwch gysylltu â'r tîm yma: **newentrant.team@citb.co.uk.**

## #GWELDEICHSAFLE

Mae cyflogwyr eisiau i bobl ifanc sydd wedi cwblhau cyrsiau coleg fod yn barod i weithio ar y diwrnod cyntaf. Cynhelir ein hymgyrch #GweldEichSafle poblogaidd yng Nghymru eleni, yn dilyn ymgyrch mis Tachwedd y llynedd lle bu 257 o ddysgwyr yn ymweld â 23 o safleoedd.

Drwy gynnig profiad ar y safle i golegau a phobl ifanc, gall CITB helpu i bontio'r bwlch rhwng darparwyr hyfforddiant a cyflogwyr. Mae perthynas waith agos yn gwella sgiliau ac allbwn adeiladu.




## CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (EDI)

Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i hyrwyddo mentrau Tegwch, Cynhwysiant a Pharch (FIR) a newid diwylliant y diwydiant. Byddwn yn gwneud hyn drwy feithrin mwy o wybodaeth a dealltwriaeth.

Rydym yn cyllido'r rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch bresennol drwy gyfres o weithdai a dosbarthiadau meistr am ddim Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi, gan helpu'r diwydiant i uwchsgilio ar amrywiaeth, drwy gyrsiau fel Arwain Pobl yn Gynhwysol, Sefydlu Safle Cynhwysol, a Monitro ac Adrodd ar Amrywiaeth yn y Gweithle.

Mae CITB yn arwain drwy esiampl drwy wreiddio Tegwch, Cynhwysiant a Pharch yn ein holl fentrau, gan gynnwys yr Hybiau Profiad ar y Safle. Mae holl staff CITB yn cael hyfforddiant Tegwch, Cynhwysiant a Pharch gorfodol blynyddol.

Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) ac Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi (SCSS) i ddatblygu adnoddau Tegwch, Cynhwysiant a Pharch, sydd wedi cael derbyniad da iawn gan y diwydiant. Ein cam nesaf i ddatblygu ein cefnogaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y diwydiant yw gwerthu manteision datblygu gweithlu mwy cynhwysol i fusnesau llai. Mewn partneriaeth â'r SCSS, bydd comisiwn Tegwch, Cynhwysiant a Pharch CITB yn cyrraedd 490 o fusnesau newydd a 1,100 o unigolion unigryw i ddefnyddio'r adnoddau a meithrin amgylchedd teg, cynhwysol a pharchus yn eu busnes.

Mae gweithio i sicrhau gweithlu mwy amrywiol yn ganolog i'n pwrpas ac eleni byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i wella cynhwysiant.

Gwella cynhwysiant yw un o'r canlyniadau cyntaf rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni gyda'n Cronfa Effaith ar y Diwydiant newydd; byddwn yn derbyn ceisiadau gan gyflogwyr adeiladu er mwyn i ni gefnogi a chynnal amrywiaeth hirdymor ar draws y diwydiant adeiladu.



## CEFNOGI IECHYD MEDDWL GWEITHWYR ADEILADU

Mae CITB wedi bod yn gweithio i greu amgylchedd mwy agored a chynhwysol lle gall gweithwyr gael y cymorth iechyd meddwl sydd ei angen arnynt. Bydd ein cymorth ar gyfer hyfforddiant a mentrau iechyd meddwl yn parhau yn 2023-24.

Mae cynlluniau blaenorol yn cynnwys gweithio gyda'r Lighthouse Club i hyfforddi Swyddogion a Hyfforddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu llwyfan gwe i wneud cymorth iechyd meddwl yn hygyrch i fusnesau bach a chanolig ac rydym yn sefydlu comisiwn i gefnogi iechyd meddwl prentisiaid wrth iddynt ddechrau ar eu taith i fyd adeiladu. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu gydag ymgysylltiad gan y Samariaid, y Lighthouse Club, Mates in Mind, Optima ac Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi

Yn 2022, fe wnaethom lansio treial i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl i diwtoriaid sy'n darparu prentisiaethau gan sicrhau bod prentisiaid yn cael cymorth iechyd meddwl yn ystod blwyddyn gyntaf y cymhwyster. Mae gan hyn nifer o nodau hirdymor, yn enwedig y cynnydd yn y cyfraddau cwblhau wrth i unigolion gael mwy o ymwybyddiaeth o ba bryd i ofyn am gymorth a pha gymorth ac adnoddau sydd ar gael iddynt.

Yn yr hirdymor, rydym yn disgwyl gweld yr unigolion hynny sy'n ymuno â'r diwydiant yn addysgu eu cydweithwyr am bwysigrwydd iechyd meddwl. Yn y pen draw, wrth iddynt symud ymlaen i rolau rheoli, bydd y diwydiant yn elwa ar reolwyr sy'n fwy cymwys i ddarparu cymorth iechyd meddwl.

## HYBIAU PROFIAD AR Y SAFLE

Mae CITB, ar y cyd â chyflogwyr ledled Cymru a Lloegr, wedi sefydlu 12 Hwb Profiad ar y Safle. Mae'r Hybiau yn adeiladu ar waith ein Cronfa Sgiliau Adeiladu lle mae dros 6,000 o bobl yn cael swyddi adeiladu. Nod yr Hybiau yw denu pobl o gronfeydd talent newydd ac ehangach na fyddai fel arfer yn ystyried adeiladu fel gyrfa. Bydd CITB yn gweithio gyda darparwyr i hyfforddi newydd-ddyfodiaid a'u rhoi ar lwybr gyrfa clir at swyddi sy'n talu'n dda. Pobl fel Emmy Jones, a oedd mewn perthynas gamdriniol, ond a ddaeth o hyd i ffordd at annibyniaeth ar ôl hyfforddi fel gweithiwr dymchwel. A Willow Kehily, mam i ddau o blant, a ailsgiliodd mewn gwaith coed ar ôl colli ei swydd yn y byd manwerthu.



# CANOLFAN PROFIAD AR Y SAFLE YN GWEDDNEWID BYWYD DANIEL

**"Dysgu sgil newydd bob dydd oedd un o'r teimladau gorau."**

Dyna argraffiadau saer dan hyfforddiant o'r enw Daniel Skelly. Fel llawer o bobl, cafodd Daniel, sy'n 21 oed ac sy'n dod o Gaerlŷr, amser caled yn ystod y cyfnod clo. Yn ystod y pandemig, roedd yn gofalu am ei fam, Juliet, a gafodd ddiagnosis o ganser.

Y cyfnod clo oedd adeg waethaf ei fywyd, meddai Daniel, a phan fu farw Juliet, yn gwbl ddealladwy roedd "mewn lle gwael iawn."

**"Roedd hi'n arfer dweud, 'gwna'n siŵr dy fod di'n cael gwaith yn y diwydiant adeiladu oherwydd bydd gennyt ti swydd am oes,' meddai Daniel. "Rhoddodd y geiriau hynny'r hwb oedd ei angen arnaf i roi trefn ar fy mywyd."**



Dechreuodd ffawd Daniel newid pan ymunodd â Chanolfan Adeiladu Ar y Safle Cyngor Dinas Caerlŷr. Mae hybiau Profiad ar y Safle wedi eu dylunio i ddarparu ateb recriwtio un-stop i gyflogwyr adeiladu.  Mae'r Ganolfan Profiad ar y Safle yng Nghaerlŷr, sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor a'i chyllido ar y cyd gan CITB, yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl sy'n chwilio am waith yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhoi'r cymwysterau sy'n barod ar gyfer y safle i ddysgwyr y mae cyflogwyr adeiladu lleol yn galw amdanynt.

Pan orffennodd Daniel ei gwrs, cafodd leoliad profiad gwaith gyda Thomson Hayes, arbenigwr dylunio ac adeiladu ym maes manwerthu yng Nghaerlŷr. Ers hynny, mae wedi datblygu ei brofiad ac wedi cael cyfleoedd i weithio dramor. "Nawr fy mod i wedi bod drwy'r Hwb, dydw i ddim yn gwybod lle mae dechrau diolch iddyn nhw," meddai. "Mae wedi rhoi'r cyfle gorau y gallwn i fod wedi gofyn amdano erioed. "Gobeithio y byddaf i'n dod yn saer cymwys ac yn rhoi trefn ar fy mywyd, a gwneud fy mam a fy merch yn falch ohonof."

Nod CITB yw cynyddu'r gronfa dalent adeiladu drwy hybiau Profiad ar y Safle, gan greu llif o dalent i ddiwallu anghenion cyflogwyr adeiladu lleol a chynorthwyo cyfleoedd gyrfa ym maes adeiladu i bobl o gymunedau lleol.

2

# CREU LLWYBRAU HYFFORDDIANT DIFFINIEDIG

Mae safonau, cymwysterau a fframweithiau cymhwysedd yn sail i bopeth mae CITB yn ei wneud i sicrhau hyfforddiant adeiladu o ansawdd uchel ym Mhrydain.

Rhaid iddynt adlewyrchu gweithrediadau'r diwydiant o ddydd i ddydd a rhoi sicrwydd i gyflogwyr y gall eu gweithlu ddiwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol.



Mae rhoi'r safonau, y fframweithiau cymhwysedd a'r hyfforddiant cywir ar waith yn hanfodol i ddiwallu'r galw am sgiliau newydd – mae angen 45,000 o bobl ychwanegol yn y diwydiant bob blwyddyn.

Mae safonau a llwybrau hyfforddi yn helpu i sicrhau bod pobl sydd â'r sgiliau iawn yn dod i'r diwydiant adeiladu a bod gan y rhai sydd eisoes yn y diwydiant y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad cywir i wneud eu gwaith yn dda. Mae'r gwaith hyn yn bwysig oherwydd:

- Mae angen hyfforddiant ar fusnesau i fod yn gyfredol a chynnwys y deunydd cywir i alluogi pobl i berfformio'n dda yn eu swyddi
- Mae angen i ni gynnig llwybrau hyblyg i mewn. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am brentisiaethau, ond gall fod yn anodd i unigolion a chyflogwyr ganfod a oes dewisiadau eraill addas. Bydd sefydlu llwybrau hyfforddi clir yn helpu i ddangos y cyfuniadau o hyfforddiant a phrofiad sydd eu hangen ar bobl i fod yn effeithiol mewn rôl
- Mae busnesau eisiau gweithwyr cymwys, ond does dim byd syml a phendant sy'n nodi sut beth yw 'cymwys' ym mhob rôl.

I gyflawni hyn, bydd CITB yn:

- Parhau â'n gwaith i wneud yn siŵr bod **safonau** clir y cytunwyd arnynt gan y diwydiant yn eu lle (fel y rhai sy'n sail i'r hyfforddiant sydd ar gael drwy ein Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n cefnogi NVQs ac SVQs)
- Cyhoeddi **llwybrau hyfforddi** clir sy'n nodi'r 'llwybrau cymhwysedd' sy'n cwmpasu'r cymwysterau a'r llwybrau hyfforddi y gall dysgwyr eu dilyn ym mhob galwedigaeth a chenedl
- Datblygu **Fframweithiau Cymhwysedd** sy'n nodi'n glir y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen ym mhob galwedigaeth.



## SAFONAU

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i ddylanwadu ar brentisiaethau, ar ran y diwydiant. Yng Nghymru, rydym yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu gradd-brentisiaethau newydd. Ac yn yr Alban, mae Skills Development Scotland (SDS) yn cynnal adolygiad llawn o brentisiaethau adeiladu. Rydym yn cydweithio â SDS i sicrhau bod prentisiaethau yn yr Alban yn diwallu anghenion y diwydiant sgiliau a hyfforddiant ac yn paratoi unigolion yn dda ar gyfer gyrfa ym maes adeiladu.

Mae ein cylch parhaus o ddiweddaru safonau yn seiliedig ar ymchwil i ganfod tueddiadau a diweddaru cynnwys i sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion y diwydiant sgiliau yn awr ac yn y dyfodol. Eleni, bydd gwaith rhagweld sgiliau yn canolbwyntio ar archwilio'r sgiliau technegol sydd eu hangen i adeiladu tai sero net, yn ogystal â rôl technoleg newydd o ran galluogi adeiladu digon o dai.

Mae sero net, digidoleiddio a dulliau adeiladu modern yn her tymor canolig i dymor hir. Rydym yn gweithio ar adeiladu sylfaen gadarn o hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hyn drwy sicrhau bod ein gwaith safonau'n ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen i fynd i'r afael â ffyrdd newydd o weithio.

Erbyn diwedd 2024, byddwn yn cwblhau'r adolygiad cylchol pum mlynedd o'r holl safonau, gan sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth gywir a chyfredol ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau.

## LLWYBRAU HYFFORDDIANT

Eleni, byddwn yn cynhyrchu naw llwybr cymwysterau a hyfforddiant, gan ddechrau gyda galwedigaethau sy'n cynnwys nifer uchel o weithlu'r diwydiant:

- Gosod brics
- Gwaith saer ac Asiedydd
- Plastro
- Paentio ac Addurno
- Teilsio Waliau a Lloriau
- Inswleiddio a Thriniaethau Adeiladu
- Goruchwylio Safle
- Rheoli Safle.

bydd hyn yn cwmpasu tua 20% o alw'r diwydiant am sgiliau ychwanegol.


Eleni, byddwn yn dechrau gwaith i ganfod y llwybrau presennol ar gyfer denu pobl a'u helpu i symud ymlaen. Os yw'r llwybrau hyn yn anghyflawn, neu os nad ydynt yn gweithio'n dda, byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol i ddatblygu hyfforddiant a chymwysterau ychwanegol neu i wella'r rhai presennol.

Mae hyn yn cynnwys Lefel T, sef cymhwyster newydd mewn colegau ar gyfer dysgwyr yn Lloegr. Fel rhan o'r rhaglen, mae unigolion yn cael sylfaen gadarn o sgiliau, gwybodaeth, ymddygiad a phrofiad gwaith yn y diwydiant ond mae angen rhywfaint o hyfforddiant ac ymarfer ychwanegol arnynt cyn y gellir eu hystyried yn gwbl gymwys.

Fel rhan o gynllun peilot dwy flynedd, bydd CITB yn gweithio gyda chyflogwyr, y Llywodraeth a cholegau i ddatblygu a darparu llwybr carlam i gynorthwyo'r dysgwyr hyn.

Bydd Gosod Brics a Gwaith Saer ac Asiedydd yn cael eu cyflawni yn 2023-24; bydd gweddill y llwybrau rôl yn cael eu hychwanegu yn 2024-25.

Yn y tymor hwy, bydd y gwaith llwybrau hyfforddi yn ein helpu i weithio gyda darparwyr hyfforddiant, cyrff dyfarnu, cynlluniau cardiau, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â bylchau ar draws y diwydiant a sicrhau bod y system sgiliau yn cyd-fynd ag anghenion y diwydiant.



## FFRAMWEITHIAU CYMHWYSEDD

Mae'r diwydiant yn gweithio'n galed i ymateb i drefn diogelwch adeiladau newydd ac mae ein man cychwyn ar gyfer datblygu fframweithiau cymhwysedd yn adlewyrchu hyn. Mae'r ffocws ar wneud yn siŵr bod y rhai sy'n ymwneud â dylunio neu waith adeiladu yn gymwys. Bydd y fframweithiau'n diffinio sut y bydd disgwyl i unigolion a sefydliadau ddangos eu cymhwysedd: ar gyfer unigolion, drwy gyflawni hyfforddiant a chymwysterau rhagnodedig; ar gyfer sefydliadau, drwy ardystiad trydydd parti achrededig.

I gynorthwyo'r diwydiant, bydd CITB yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu (CLC) ac yn hwyluso grwpiau sector i gytuno ar fframweithiau cymhwysedd ar gyfer:

1. Galwedigaethau Cladio (Sgrin Glaw)
2. Galwedigaethau Toi
3. Systemau Mewnol (Leinin sych)
4. Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiedig (Tân Goddefol).

Byddwn hefyd yn dod â rhannau perthnasol o'r diwydiant at ei gilydd i ddechrau gweithio ar fframweithiau cymhwysedd ar gyfer y blaenoriaethau diogelwch tân sy'n weddill a nodwyd gan y CLC:

- Galwedigaethau Gosod Arbenigol (Gosodwr Caeadau a Systemau Drws, Concrid wedi ei Chwistrellu)
- Galwedigaethau Gwaith Uwch-strwythurau (Gosodwr Lloriau Cyfansawdd sy'n Gwrthsefyll Tân)
- Galwedigaethau Gwaith Coed (Gwaith coed ar y safle).

Bydd y fframweithiau cymhwysedd hyn yn nodi'r safonau disgwyliedig ar gyfer pob rôl, gan gynnwys y cymwyseddau craidd newydd sy'n ofynnol o dan BSI Flex 8670.

# "CWAD" ADEILADU YN SICRHAU SWYDDI I 90% O FYFYRWYR

Ffurfiodd CITB bartneriaeth â Morgan Sindall Construction, Buckinghamshire College Group, ac ABC Assessment Centre i sicrhau hyfforddiant ar y safle ar gyfer unigolion a oedd am ddilyn gyrfa ym maes adeiladu. Bu CITB yn cydweithio ag ABC Assessment Centre a Buckinghamshire College Group i ariannu cyrsiau mewn galwedigaethau lle mae perygl mawr o brinder gweithwyr yn yr ardal leol, fel gosod brics a leinin sych.

Bu dros 4,000 o bobl yn cymryd rhan yn y gweithdai, y sesiynau blas ar waith a'r ymweliadau ag ysgolion a gynhaliwyd gan CITB, a chynigiwyd dros 130 awr o weithdai cyflogadwyedd i unigolion a oedd yn derbyn hyfforddiant yn y Cwad. Roedd y Cwad wedi ei leoli yn Ysgol Uwchradd Kingsbrook. Roedd yn creu cysylltiad rhwng dysgwyr a swyddi, a chafodd:



**DROS £2 FILIWN** ei gwario gyda'r gadwyn gyflenwi leol

**23 CYMHWYSTER GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL (NVQ)** eu dyfarnu i fyfyrwyr

Tua **900** o oriau o ddarlithoedd a phrofiad gwaith eu darparu i fyfyrwyr

**PEDWAR** achrediad a chymhwyster datblygu proffesiynol eu dyfarnu.



3

# CYFLENWI HYFFORDDIANT YN EFFEITHLON

Er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i gyflogwyr, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod capasiti ac ansawdd angenrheidiol y cyflenwad hyfforddiant ar gael.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ehangu ein grantiau a'n cyllid i helpu i gymell hyfforddiant a pharhau i ddarparu cymorth ar gyfer yr hyfforddiant craidd sy'n helpu i gael pobl ar y safle ac yn ddiogel.



## RHWYDWAITH DARPARWYR ANSAWDD

Ein hamcan ar gyfer 2023-24 yw ehangu ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cydnabyddedig i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i ddarpariaeth o safon ar gyfer eu holl anghenion.

Y nod hirdymor ar ôl 2023-24 yw gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr hyfforddiant a'r rhwydwaith coleg i sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, a bod y ddarpariaeth yn cael i llywio gan yr wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau newydd.

## HYFFORDDIANT SGILIAU CRAIDD

Mae hyfforddiant sgiliau craidd, fel prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd CITB, yn ffordd bwysig i weithwyr adeiladu ddangos eu bod yn gallu gweithio'n ddiogel. Pasiodd dros 355,000 brawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y llynedd ac mae prosesau monitro, adolygu a sicrhau ansawdd yn golygu bod safonau'n cael eu cadw'n uchel a bod y prawf yn gyfredol. I gyflogwyr, mae cael gweithwyr sydd wedi pasio prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd CITB yn sicrwydd y gall eu gweithlu gadw eu hunain a'r bobl o'u cwmpas yn ddiogel.

## COLEGAU ADEILADU CENEDLAETHOL

Bydd CITB yn buddsoddi yn y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) i ddatblygu ein cyfleusterau ac ansawdd yr hyfforddiant. Drwy ganolbwyntio'r cwricwlwm ar alw na diwallwyd, rydym yn edrych i feithrin gallu ar gyfer y diwydiant, sydd wedi arwain at gynnydd o 36% yn nifer y bobl sydd wedi'u hyfforddi hyd yma. Dengys ein data fod 96% o brentisiaid CITB wedi sicrhau cyflogaeth neu wedi symud ymlaen mewn addysg, gyda dros 90% yn aros yn y sector. Eleni, byddwn yn gweithio i hyfforddi mwy o bobl drwy'r NCC (cynnydd o 7%).



## HYFFORDDWYR AC ASESWYR

Mae prinder hyfforddwyr ac aseswyr addas yn y diwydiant adeiladu. Heb y lefelau gofynnol o hyfforddwyr ac aseswyr, nid yw'n bosibl ateb galw cyflogwyr am hyfforddiant.

Yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022-23, fe wnaethom gynorthwyo nifer o brosiectau gyda chyflogwyr a phartneriaid yn y diwydiant i recriwtio a hyfforddi rhagor o hyfforddwyr ac aseswyr. Byddwn yn datblygu'r cymorth hwn yn 2023-24 drwy amrywiaeth o fentrau yn y sector sy'n cydweithio â busnesau a darparwyr.

## RHEOLI AC ARWAIN

Rydym wedi cytuno, gyda'r CLC a'n partneriaid yn y diwydiant, i wella ansawdd sgiliau arwain a rheoli pobl sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, yn enwedig ymysg busnesau llai.

Os byddwn ni'n gwella sgiliau ein harweinwyr a'n rheolwyr, bydd cyflogwyr yn dod yn fwy cynhyrchiol, a bydd ein diwydiant yn dod yn cynnig gyrfa mwy deniadol.

Bydd y ffocws cyntaf ar gyfer gwella sgiliau rheoli ac arwain yn ein diwydiant ar oruchwylwyr a rheolwyr safle, ar Lefel 3 yn gyffredinol.

Yn 2022-23, fe wnaethom gyflwyno 12 modiwl newydd i helpu rheolwyr safle a rheolwyr eraill i wella eu sgiliau arwain a rheoli. Rydym wedi cynorthwyo darparwyr hyfforddiant newydd i gynnig y rhaglenni hyn.

Ar ben hynny, mae CITB wedi comisiynu darparwyr hyfforddiant i ddarparu hyfforddiant i hyd at 10,000 o bobl yn ystod 2023/24. Bydd y comisiwn Cyflawni Uniongyrchol Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn darparu hyfforddiant am ddim i reolwyr rheng flaen, goruchwylwyr safle a rheolwyr safle. Bydd hyn ar ffurf pump modiwl ILM sy'n arwain at ddyfarniad ILM Lefel 3 neu dystysgrif mewn Arweinyddiaeth ac Ymarfer Rheoli ar gyfer y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Rydym wedi ategu'r cymorth hyfforddiant rheoli rydym yn ei ddarparu i fusnesau bach a chanolig drwy'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant drwy gyflwyno Cronfa Arweinyddiaeth a Rheoli arbennig i gynorthwyo cyflogwyr mawr i ddatblygu a darparu rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer eu busnesau. Bydd hyn nid yn unig o fudd i hyd at 300 o gyflogwyr mawr, ond hefyd i gyflenwyr ac is-gontractwyr y cyflogwyr mawr hyn.

Bydd hyn yn rhoi mwy fyth o elw ar fuddsoddiad CITB i'r diwydiant ehangach.

# TECHNOLEG GPS, NID Y DYFODOL YDYW. MAE'N DIGWYDD YN AWR




Derbyniodd L Lynch Plant Hire & Haulage Ltd £15,000 drwy Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant CITB ar gyfer busnesau canolig eu maint, i ehangu capasiti ei ganolfan hyfforddi. Mae'r ganolfan yn cynnig hyfforddiant technoleg GPS ar safleoedd adeiladu i weithredwyr peiriannau. Cymerodd cyfanswm o 38 o gyfranogwyr ran yn y rhaglen hyfforddi. Roedd y manteision yn cynnwys:

**46%** yn llai o oriau prosiect

**34%** yn llai o oriau offer

**37%** yn llai o danwydd yn cael ei ddefnyddio

**31%** yn llai o oriau gwaith

Dywedodd Gez Bonner, Rheolwr Hyfforddi Cenedlaethol L Lynch:

**"Mae'r broses yn syml iawn, ac mae cyfathrebu bob amser yn llifo rhyngom. Mae'n bosibl y bydd rhai cyflogwyr ar draws y diwydiant yn rhoi rhwystr rhyngddynt eu hunain a CITB, ond rydw i bob amser yn dweud, nid ni a nhw yw'r ffordd orau, ond gweithio gyda'n gilydd. Nid elw yw hyfforddiant, ond gwerth i'r diwydiant adeiladu cyfan."**



# SERO-NET

## Mae Sero-net yn garreg filltir ar gyfer cynaliadwyedd - mae iddo werth corfforaethol sy'n llywio popeth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Mae'n rhan allweddol o fynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol – gan sicrhau bod cyflogwyr a'r gweithlu wedi eu paratoi'n dda. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae gan CITB gynlluniau uchelgeisiol.

Fe wnaethom lwyddo i gyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Sero Net ym mis Medi 2022, gan adeiladu ar y gwaith ymchwil Building Skills for Net Zero a Net Zero and Construction: Perspectives and Pathways a gynhaliwyd yn 2021. Dywedodd y diwydiant wrthym fod angen mwy o eglurder ynghylch y sgiliau sydd eu hangen i baratoi ar gyfer sero net, felly rydym yn darparu arweiniad yn y maes hollbwysig hwn.

Rydym yn datblygu safonau a chymwysterau newydd, yn targedu cyllid tuag at feysydd sgiliau blaenoriaeth sero net ac yn cynnal ymchwil - yn genedlaethol a rhanbarthol - i ganfod anghenion sgiliau yn y dyfodol. Yn allweddol, mae'r cynllun hwn yn ddeinamig – bydd yn datblygu wrth iddi ddod yn fwy amlwg ble mae'r gofynion o ran sgiliau. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar Strategaeth Cynaliadwyedd, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod y Gwanwyn.

Yn gryno, mae CITB yn casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud y dewisiadau iawn a gosod sylfeini ar gyfer ailadeiladu system sgiliau. Byddwn yn blaenoriaethu anghenion sgiliau ôl-osod y Deyrnas Unedig drwy wneud y canlynol:

- Parhau i gynnig grantiau ar gyfer amrywiaeth o hyfforddiant a chymwysterau gan gynnwys cydlynydd ôl-osod, asesydd a gosodiadau inswleiddio
- Sicrhau bod llwybrau hyfforddi'n glir a bod cymwysterau'n addas i'r diben
- Gweithio'n agos gyda llywodraethau a diwydiant fel bod hyfforddiant ar gael i ateb y galw sy'n dod i'r amlwg a'r galw a ragwelir.



# SUT BYDDWN NI'N GWEITHIO GYDA'N PARTNERIAID

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chynnal safonau a hyfforddiant o ansawdd uchel, gan wneud hyfforddiant, grantiau a chyllid yn fwy hygyrch ar yr un pryd.

Byddwn yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn gweithio'n adeiladol gyda'n partneriaid ar yr heriau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw.

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant. Mae angen dull cydweithredol ar gyfer heriau fel y bwlch sgiliau sy'n ehangu, gan ddod â'r diwydiant adeiladu a'r Llywodraeth at ei gilydd i nodi materion yn awr ac yn y dyfodol, datblygu atebion a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

## GRYMUSO CYFLOGWYR

Bydd CITB yn grymuso cyflogwyr i bennu eu hanghenion sgiliau lleol drwy Grwpiau Hyfforddi a rhwydweithiau cyflogwyr eraill.

Ym mis Awst 2022, fe wnaethom gyhoeddi buddsoddiad o £800,000 mewn prosiect Peilot Rhwydwaith Cyflogwyr newydd a fydd yn chwyldroi'r ffordd mae'r diwydiant yn cael cyllid ar gyfer hyfforddiant. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023-24. Rydym wedi dyrannu £3 miliwn yn 23-24 a £6 miliwn y flwyddyn ar ôl hynny, yn ogystal â pharhau i gyllido Grwpiau Hyfforddi gyda £3.3 miliwn.

Ein nod yw ehangu eu defnydd ar draws y diwydiant i brofi cysyniadau newydd yn dilyn gwerthusiad ac adolygiad llawn o lwyddiant ac argymhellion. Byddwn hefyd yn gweithio i ddeall sut gallwn hyrwyddo a theilwra cymorth ar gyfer cwmnïau llai.



## GWEITHIO GYDA CHYNGHORAU CENEDLAETHOL A LLYWODRAETHAU DATGANOLEDIG

Mae ein Cynghorau Gwledydd yn un ffordd o gydweithio ac ymgynghori â'r diwydiant i'n helpu ni i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn diwallu anghenion Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae ein Cynlluniau Cenedl blynyddol yn ategu'r Cynllun Busnes hwn. Cefnogir y cynlluniau hyn gan ein Cynghorau ac maent yn cynnwys ymyriadau a phrosiectau penodol ar gyfer pob gwlad yn unol â'r tair blaenoriaeth. Mae prosiectau penodol yn parhau i gael eu targedu ar lefel benodol i'r wlad, lle bo hynny'n briodol, er mwyn ymateb i anghenion a heriau gwahanol.

## LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cydweithio i sicrhau bod llwybrau cynnydd clir i'r diwydiant ac i helpu pobl i uwchsgilio drwy'r system sgiliau. Mae hyn yn cynnwys ategu'r gwaith o ddatblygu modelau prentisiaeth newydd, Lefelau T, ac adolygiadau parhaus o gymwysterau gan y Llywodraeth.

Byddwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth cyflogwyr yn Lloegr o gynnig hyfforddiant am ddim y Llywodraeth ar gyfer Swyddi i oedolion, y Bwtcamp Sgiliau Adeiladu a'r Hawl newydd i Fenthyciadau Dysgu Gydol Oes i ategu'r gwaith o wella sgiliau'r gweithlu adeiladu. Ar ben hynny, byddwn yn gweithio gyda Chyrff sy'n Cynrychioli Cyflogwyr ledled Lloegr i ddatblygu Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant leol yn diwallu anghenion sgiliau'r diwydiant.

Bydd ein gwaith yn ymdrechu i fodloni blaenoriaethau'r Llywodraeth, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn well i bobl 16 oed a hŷn, ategu a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu sgiliau, a hyrwyddo amrywiaeth. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â'r sgiliau sydd eu hangen i adfer a lliniaru cladin anniogel ar adeiladau preswyl uchder canolig ac uchel iawn.

## RHANDDEILIAID Y DIWYDIANT: SEFYDLIADAU A FFEDERASIYNAU RHAGNODEDIG

Mae ein partneriaethau gwaith cryf a chadarnhaol gyda Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig yn allweddol i gyflawni ein cynllun. Er mwyn sicrhau bod lleisiau cyflogwyr yn cael eu cynrychioli, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n Sefydliadau Rhagnodedig ar bob un o'r tair blaenoriaeth adeiladu er budd y diwydiant cyfan. Mae eu dealltwriaeth a'u cymorth yn dal yn elfen allweddol o'n mentrau gyrfaoedd, safonau, cymwysterau a hyfforddiant.

Ochr yn ochr â'n gwaith gyda chyrff yn y diwydiant sy'n cynrychioli cyflogwyr o bob maint, byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyflawni Sgiliau Adeiladu, yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau, Adrannau Llywodraeth a'r Cyngor Arwain Adeiladu, a chyfrannu at eu gwaith.





# CAEL GAFAEL AR GYMORTH CITB

Yn ogystal â'n tair blaenoriaeth, bydd cael gafael ar gymorth yn aros yn gyson drwy 2023-24. Gall cyflogwyr wneud hyn mewn sawl ffordd:

## TÎM YMGYSYLLTU Â CHWSMERIAID

Gall Cynghorwyr CITB ddarparu arweiniad a chymorth ar gyfer cael gafael ar hyfforddiant, grantiau, cyllid a phrentisiaethau CITB. Yn ogystal, gallant gyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth, cymorth a chyngor, gan gynnwys rhwydweithiau a phartneriaid lleol - er enghraifft, Partneriaethau Menter Lleol, Canolfannau Twf a chynlluniau lleol eraill.

Mae ein tîm o gynghorwyr ar gael i'n holl gwsmeriaid, i'w helpu gyda'r pethau mawr sy'n bwysig a'r pethau bychain sy'n gwneud gwahaniaeth. Roedd gennym tua 45,000 o ymrwymiadau yn 2022-23. Yn 2023-24, byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo cyflogwyr llai i gyflogi prentisiaid.



## CYLLID

Rydym yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau penodol i gyflogwyr sy'n ceisio darparu profiadau hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel i'w gweithwyr. Mae hefyd yn gymhelliant ychwanegol i gael mynediad at hyfforddiant adeiladu neu arwain a rheoli.

Gall cyflogwyr wneud cais am gyllid drwy ein cronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer cyflogwyr micro, bach a chanolig. Rydym wedi dyrannu £10 miliwn i'r gronfa yn 2023-24.

Eleni, bydd y gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer busnesau bach a chanolig yn parhau i fod yn agored ar gyfer ceisiadau, gyda hyd at £10,000 yn cael eu talu i gyflogwyr bach a micro a hyd at £25,000 yn cael eu talu i gyflogwyr canolig eu maint i gynorthwyo â'u hanghenion hyfforddi.

Mae'r Gronfa Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer cyflogwyr mawr yn gronfa anghystadleuol. Mae'n galluogi'r rhai sydd â thros 250 o staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau arwain, rheoli neu oruchwylio eu gweithlu.

Y gronfa newydd sy'n cael ei lansio eleni yw'r Gronfa Effaith ar y Diwydiant. Mae'r gronfa wedi ei chynllunio i gefnogi prosiectau y gellir eu hehangu a chael budd gadarnhaol ar sector penodol neu'r diwydiant yn gyffredinol. Gyda ffocws ar syniadau arloesol, bydd y gronfa yn galluogi cyflogwyr i fuddsoddi mewn atebion i fynd i'r afael â chynhyrchiant, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb a fydd o fudd i'r diwydiant ehangach. Dyrannwyd dros £3 miliwn i'r gronfa, a gellir derbyn ceisiadau o hyd at £500,000.



## GRANTIAU

Mae CITB yn darparu grantiau i gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu sy'n darparu hyfforddiant i'w gweithlu. Mae'r Cynllun Grantiau yn helpu'r diwydiant i gynnal safonau uchel, gan sicrhau bod pobl yn cael eu hyfforddi yn y sgiliau cywir er mwyn i'r diwydiant ffynnu. Mae grantiau ar gyfer hyfforddiant o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyrsiau byr, cymwysterau a phrentisiaethau.

Rydym wedi dyrannu dros £100 miliwn at grantiau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae newidiadau i Gynllun Grantiau eleni yn cynnwys:

- Cynyddu ein cyfraddau grant cyrsiau byr i rhwng £60 a £240
- Bydd cyfraddau grant cyrsiau Rheoli ac Arwain yn cynyddu i rhwng £60 a £240 y cwrs
- £2,000 ychwanegol ar ben y grant presennol (£2,500 y flwyddyn ar gyfer presenoldeb a £3,500 ar gyfer cyflawniad) ar gyfer prentisiaethau leininsych
- Mae'r grant ar gyfer Cymwysterau Cladin Sgrin Law wedi cynyddu o £600 i £1,000
- Bydd y grant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol goruchwylio a rheoli yn cynyddu o £600 i £1,250 a £1,500 yn y drefn honno i helpu i gael gwared ar gerdyn Achredu'r Diwydiant CSCS
- Bydd un taliad grant sengl ar gael i gyflogwyr sy'n cyfuno'r gwaith o hyfforddi a phrofi'r wyth safon safle gwaith a ddefnyddir amlaf.






# CYLLID – 1 MLYNEDD


## FFYNONELLAU INCWM

| | 23/24 £m |
|---|---|
| 1. Lefi | 196.2 |
| 2. Incwm Cynnyrch a Gwasanaethau | 44.9 |
| 3. Balans (o)/i gronfeydd wrth gefn | 11.9 |
| **BALANS (O)/I GRONFEYDD WRTH GEFN** | **253.0** |




## FFYNONELLAU BUDDSODDIAD


| | 23/24 £m |
|---|---|
| **CYLLID UNIONGYRCHOL Y CYFLOGWR** | |
| 1. Grantiau Prentisiaethau | 63.6 |
| 2. Grantiau Cymwysterau | 11.4 |
| 3. Grantiau Hyfforddiant Tymor Byr | 18.5 |
| 4. Cynllun Cymhellion Grant | 13.2 |
| 5.Cronfa S&H ar gyfer Cyflogwyr Bach a Micro | 7.5 |
| 6. Cronfa S&H ar gyfer Cyflogwyr Canolig | 2.1 |
| 7. Cronfa Effaith Diwydiant | 2.3 |
| 8. Cronfa Datblygu Rheoli ac Arwain ar gyfer Cyflogwyr Mawr | 3.2 |
| 9. Gweithgarwch a Ariennir | 27.4 |
| 10. Cronfeydd heb eu dyrannu sydd ar gael ar gyfer buddsoddi | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **149.2** |
| **CYMORTH ARALL** | |
| 11. Gwasanaethau Cymorth i Gyflogwyr – Ymgysylltu | 8.9 |
| 12. Safonau, Cymwysterau a Gwirio | 3.3 |
| 13. Polisi ac Ymchwil Sgiliau a Chyflogaeth | 2.0 |
| **CYFANSWM** | **14.2** |
| **DARPARU CYNNYRCH A GWASANAETHAU** | |
| 14. Cyflwyno hyfforddiant yn uniongyrchol (NCC) | 28.9 |
| 15. Prentisiaethau | 20.4 |
| 16. Cynnyrch a Gwasanaethau eraill | 14.6 |
| 17. Cost gweinyddu Lefi, Grantiau a Chynlluniau Ariannu | 25.7 |
| **CYFANSWM** | **89.6** |
| **CYFANSWM Y BUDDSODDIAD** | **253.0** |







# CYLLID - 3 MLYNEDD

| FFYNONELLAU INCWM | 23/24 £m | 24/25 | 25/26 | TOTAL |
|---|---|---|---|---|
| 1. Lefi | 196.2 | 204.1 | 205.2 | 605.5 |
| 2. Incwm Cynnyrch a Gwasanaethau | 44.9 | 49.7 | 49.7 | 144.3 |
| 3. Balans (o)/i gronfeydd wrth gefn | 11.9 | 16.9 | 18.6 | 47.5 |
| BALANS (O)/I GRONFEYDD WRTH GEFN | 253.0 | 270.7 | 273.5 | 797.2 |




| FFYNONELLAU BUDDSODDIAD | 23/24 £m | 24/25 | 25/26 | TOTAL |
|---|---|---|---|---|
| **CYLLID UNIONGYRCHOL Y CYFLOGWR** | | | | |
| 1. Grantiau Prentisiaethau | 63.6 | 65.9 | 64.4 | 193.9 |
| 2. Grantiau Cymwysterau | 11.4 | 12.3 | 11.5 | 35.2 |
| 3. Grantiau Hyfforddiant Tymor Byr | 18.5 | 20.7 | 23.1 | 62.3 |
| 4. Cynllun Cymhellion Grant | 13.2 | 10.0 | 10.0 | 33.2 |
| 5.Cronfa S&H ar gyfer Cyflogwyr Bach a Micro | 7.5 | 7.7 | 7.9 | 23.1 |
| 6. Cronfa S&H ar gyfer Cyflogwyr Canolig | 2.1 | 2.1 | 2.2 | 6.4 |
| 7. Cronfa Effaith Diwydiant | 2.3 | 2.3 | 2.4 | 6.9 |
| 8.Cronfa Datblygu Rheoli ac Arwain ar gyfer Cyflogwyr Mawr | 3.2 | 7.1 | 3.0 | 13.3 |
| 9. Gweithgarwch a Ariennir | 27.4 | 40.7 | 42.4 | 110.5 |
| 10.Cronfeydd heb eu dyrannu sydd ar gael ar gyfer buddsoddi | 0.0 | 0.0 | 3.0 | 3.0 |
| CYFANSWM | 149.2 | 168.9 | 169.8 | 487.8 |
| **CYMORTH ARALL** | | | | |
| 11. Gwasanaethau Cymorth i Gyflogwyr – Ymgysylltu | 8.9 | 9.2 | 9.4 | 27.5 |
| 12. Safonau, Cymwysterau a Gwirio | 3.3 | 3.4 | 3.5 | 10.2 |
| 13. Polisi ac Ymchwil Sgiliau a Chyflogaeth | 2.0 | 2.1 | 2.1 | 6.2 |
| CYFANSWM | 14.2 | 14.7 | 15.0 | 43.9 |
| **DARPARU CYNNYRCH A GWASANAETHAU** | | | | |
| 14. Cyflwyno hyfforddiant yn uniongyrchol (NCC) | 28.9 | 24.3 | 24.7 | 77.9 |
| 15. Prentisiaethau | 20.4 | 18.0 | 18.5 | 56.9 |
| 16. Cynnyrch a Gwasanaethau eraill | 14.6 | 17.7 | 17.9 | 50.2 |
| 17. Cost gweinyddu Lefi, Grantiau a Chynlluniau Ariannu | 25.7 | 27.2 | 27.6 | 80.5 |
| CYFANSWM | 89.6 | 87.2 | 88.7 | 265.5 |
| CYFANSWM Y BUDDSODDIAD | 253.0 | 270.7 | 273.5 | 797.2 |








# SUT BYDDWN NI'N MESUR EIN LLWYDDIANT

Mae mesur llwyddiant ac effaith ein Cynllun Busnes yn allweddol i ddiwallu anghenion y diwydiant a chadw ar y trywydd iawn.

Bydd y mesurau a nodir isod yn olrhain ein perfformiad o ran diwallu anghenion y tri maes blaenoriaeth: piblinell pobl, llwybrau hyfforddi a chyflenwad hyfforddiant ac yn adeiladu ar y mesurau a ddefnyddiwyd gennym yn 2022-23. Byddant nid yn unig yn cael eu defnyddio i adrodd ar ein perfformiad, ond hefyd yn dangos effaith ein gwaith.



# DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

## GWELLA'R BIBLINELL POBL AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU

**4%**

### 4% o gynnydd yn nifer y bobl sy'n cyrchuceisio cymorth gyrfaoedd gan CITB

Mae'r mesur hwn yn cynnwys cynyddu nifer yr ymwelwyr â gwefan Am Adeiladu, cynyddu nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru gyda TalentView Construction a chynyddu nifer y Llysgenhadon STEM Am Adeiladu.

**4%**

### 4% o gynnydd yn y cyfleoedd blasu sydd ar gael

Mae rhoi cyfle i ddarpar newydd-ddyfodiaid gael profiadau rhagflas byr o'r diwydiant adeiladu yn allweddol i gynyddu apêl gyrfa ym maes adeiladu a chodi'r gyfradd cadw ar gyfer prentisiaethau. Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i gynnig mwy o'r cyfleoedd hyn.

**7%**

### 7% o gynnydd yn nifer yr unigolion a gynorthwyir i gyflogaeth o Addysg Bellach

Mae buddsoddiad lefi i gefnogi cyflogwyr i gyflogi prentisiaid yn cael effaith sylweddol o ran bodloni galw'r diwydiant am sgiliau. Mae gyrru i fyny dechreuwyr yn ffocws allweddol i'r Tîm Cefnogi Newydd-ddyfodiaid a sefydlwyd yn ddiweddar.

**15%**

### 15% o gynnydd yn nifer y bobl mewn cyflogaeth barhaus am 3 mis drwy hybiau ar y safle

**4%**

### 4% o gynnydd yn nifer y prentisiaethau CITB a ddechreuwyd

## CREU LLWYBRAU HYFFORDDIANT DIFFINIEDIG

**20%**

### 20% o'r galw am sgiliau yn y diwydiant wedi ei gynnwys mewn llwybrau cymhwysedd a hyfforddiant y cytunwyd arnynt

Gweithio tuag at 100% o'r galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan lwybrau cymhwysedd a hyfforddiant cytunedig dros y tair blynedd nesaf.

## CYFLENWI HYFFORDDIANT YN EFFEITHLON

**5%**

### 5% o gynnydd mewn cymorth hyfforddiant CITB a gafodd ei ddefnyddio gan gyflogwyr

Mae CITB yn darparu amrywiaeth o gymorth i gyflogwyr, o grantiau i hyfforddiant uniongyrchol drwy NCC. Mae'r mesur hwn yn adlewyrchu llwyddiant CITB o ran gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch.

**4%**

### 4% o gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi

Ochr yn ochr â'r mesur cymorth i gyflogwyr, dylai hwyluso mynediad at hyfforddiant a diwallu anghenion cyflogwyr olygu bod mwy o unigolion yn cael yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.